**COFNODION LGH-17-02 (mins)**

**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**Dyddiad: DYDD MERCHER 27 TACHWEDD 2002**

**Amser: 09.30am - 12.30pm**

**Lleoliad: YSTAFELL BWYLLGORA 2, ADEILAD Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

**Yn bresennol:**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) (tan 10.25am) | Gwyr |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law (tan 11.35am) | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol*

| | |
|---|---|
| Kate Cassidy | Moderneiddio Llywodraeth Leol |
| John Bader | Cyfarwyddwr Tai |
| Steve Phipps | Moderneiddio Llywodraeth Leol |

| | |
|---|---|
| Sue Wood | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Mrs Susan Smith | Cadeirydd, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol |
| John Davies | Is-gadeirydd, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol |
| Dennis Roberts | Aelod o'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol |
| Edward Lewis | Ysgrifennydd, Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol |
| Rhian McCarthy | Consortiwm Hyfforddi Datblygu Cymunedol |
| Dr Kingsley Purdem | Prifysgol Manceinion |
| Yaojun Li | Prifysgol Manceinion |
| Yr Athro Dave Adamson | Prifysgol Morgannwg |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc |

**<u>9.30am - 9.35am</u>**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1. Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor a'r cyhoedd. Diolchodd i Peter Law am gadeirio ar ei rhan yn y cyfarfod diwethaf. Rhoddodd groeso arbennig i Dianne Bevan, Darpar Ddirprwy Glerc y Cynulliad. Ychwanegodd ei bod hi'n flin ei bod wedi colli'r cyfle i holi'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar oblygiadau Waterhouse ond ei bod yn falch gweld yn y cofnodion bod y Pwyllgor

wedi bod yn drylwyr iawn. Dywedodd hefyd ei bod hi'n siomedig ei bod wedi colli cyflwyniad pobl ifanc Cofis Cwl a'i bod wedi ysgrifennu atynt. Mae hi hefyd wedi ysgrifennu at y Llywydd yn awgrymu bod y 'montage' a gyflwynodd y grwp i'r Pwyllgor yn cael ei arddangos yn y Cynulliad.

2. Tynnodd y Cadeirydd sylw aelodau at ddwy ddeddfwriaeth arfaethedig, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau Cynghorau Cymuned) Cymru 2002 a Rheoliadau Treth y Cyngor (Anheddau Esempt) (Diwygio) (Cymru) 2003 a gofynnodd iddynt ystyried a oeddent am eu trafod yn y Pwyllgor cyn iddynt fynd i'r Pwyllgor Deddfau.
3. Dywedodd bod Cadeirydd pob Pwyllgor Pwnc wedi cael gwahoddiad i roi tystiolaeth i'r Comisiwn Richard ar 6 Rhagfyr ac i gyflwyno datganiad ysgrifenedig o flaen llaw. Mae drafft terfynol o'r datganiad wedi cael ei ddosbarthu i Aelodau a byddai'n gwerthfawrogi unrhyw sylwadau cyn ei gyflwyno.

1.4 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddatganiadau o fuddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

**<u>9.35am - 10.10am</u>**

**Eitem 2: Adroddiad Llafar y Gweinidog**

1. Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog i gyflwyno ei hadroddiad. Dwedodd bod ganddi fwy o amser gan fod Eitem 6 yn fyrrach am fod un o'r cyflwynwyr yn methu bod yn bresennol.
2. Tynnodd y Gweinidog sylw aelodau at y canlynol:

- Roedd yn falch cyhoeddi bod cynghorau tref a chymuned Cymru wedi cytuno ar brotocol i uno ac, o 1 Ebrill 2003, byddant yn cael eu hadnabod fel Cyngor Cymuned a Thref Cymru. Byddai'r corff annibynnol yn bodoli o dan gysgod y cyrff presennol tan 1 Ebrill 2004, pan y bydd yn eu disodli. Ychwanegodd y byddai'r corff yn cael ei lansio yn y Cynulliad yn y Flwyddyn Newydd a'i bod ar hyn o bryd yn ystyried faint o gymorth ariannol y gallai ei gynnig. Dywedodd y byddai'n dosbarthu manylion y corff i Aelodau. Awgrymodd y gallai'r Pwyllgor wahodd gweithgor Un Llais y Cynghorau Cymuned i roi cyflwyniad i'r Pwyllgor yn y dyfodol.
- Dywedodd ei bod yn falch cyhoeddi ei bod wedi dyrannu mwy o adnoddau i gynllun Cymorth Prynu Cartrefi Cefn Gwlad ar gyfer y flwyddyn ariannol hon, o £1.5 miliwn i

£2.25 miliwn. Atgoffodd yr Aelodau bod modd i awdurdodau lleol ychwanegu at yr arian hwn o'r Grant Tai Cymdeithasol. Dywedodd y byddai'n dosbarthu manylion llawn y cyhoeddiad hwn i Aelodau.

- Gofynnodd am arweiniad gan y Pwyllgor ar y cyhoeddusrwydd i'r bwriad i ailbrisio Treth y Cyngor. Cyfeiriodd at ei chyhoeddiad fis Chwefror diwethaf pan ddwedodd y byddai Treth y Cyngor yn cael ei hailbrisio yn 2005. Roedd papur ymgynghori yn mynd i gael ei gyhoeddi maes o law ar yr agweddau technegol. Yn ogystal â'r datganiad i'r wasg arferol a gwybodaeth ar y rhyngrwyd dywedodd ei bod yn bwriadu cyhoeddi 2 daflen wedi'u hariannu gan y Cynulliad i'w dosbarthu i bob aelwyd yng Nghymru.
- Dywedodd wrth y Pwyllgor bod yr ymchwiliad i Gymdeithas Tai'r Drenewydd wedi'i gwblhau a'i bod yn aros am yr adroddiad. Byddai'n rhoi gwybod i aelodau beth oedd y canlyniad cyn gynted ag y gallai.
- Dywedodd ei bod wedi derbyn gwybodaeth am gysylltiad pobl ifanc â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac y byddai'n rhoi nodyn i'r Pwyllgor ar hyn.
- Dywedodd ei bod wedi derbyn mwy o fanylion am gwynion ynghylch Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac y byddai'n ysgrifennu at Aelodau i roi'r manylion iddynt.
- Soniodd am y Mesur Tai drafft a nodwyd yn Araith y Frenhines. Ar hyn o bryd, nid oedd dyddiad ar gyfer cyflwyno'r mesur hwn, ond roedd yn cynnwys cyflwyno trwyddedau tai amlbreswyliaeth, trwyddedau dewisol ar gyfer landlordiaid preifat, disodli'r safon ffitrwydd gan system raddio iechyd a diogelwch, pecynnau i helpu pobl i brynu tai, y paratoadau ar gyfer creu un gyfarwyddiaeth dai a deddfwriaeth ar wahân ar gyfer mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gan gynnwys mewn cartrefi. Ychwanegodd y byddai'n hysbysu'r Pwyllgor yn rheolaidd ar ei ddatblygiad.
- Roedd wedi bod yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân i osod systemau taenellu dwr mewn ysgolion. Roedd 2 ysgol, Ysgol Uwchradd St Julians yng Nghasnsewydd ac Ysgol Penlan yn Abertawe wedi'u henwi fel ysgolion a fyddai'n profi'r system. Dywedodd y byddai'n rhoi'r diweddaraf i'r Pwyllgor ar hynt y prawf.
- Dywedodd fod Rhwydwaith Cymorth Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn cynnal ei gynhadledd gyntaf. Deallai fod Aelodau'r Pwyllgor wedi cael gwahoddiad.
- Cyfeiriodd at lansio Cronfa Ddatblygu Swyddfa'r Post a gynhaliwyd yn ddiweddar. Cafodd yr achlysur dderbyniad da gan is-bostfeistri. Ychwanegodd na fyddai'r Adran dros Fasnach a Diwydiant, yn anffodus, yn cyhoeddi *Your Guide to Post Offices.*
- Dywedodd bod y Mesur Llywodraeth Leol wedi'i gyflwyno i'r Senedd ar 25 Tachwedd a'i bod wedi rhoi'r manylion mewn llythyr i Aelodau.

1. Wrth ymateb, dywedodd aelodau:

- Roedd aelodau'n croesawu'r gymdeithas Cynghorau Tref a Chymuned newydd. Talwyd teyrnged i Peter Law a oedd wedi chwarae rhan allweddol yn y broses. Roedd aelodau'n cytuno y byddai'n ddefnyddiol clywed cyflwyniad gan y corff yn y dyfodol.
- Roedd Aelodau'n croesawu'r cyhoeddiad bod arian ychwanegol ar gyfer y cynllun

Cymorth Prynu Cartrefi Cefn Gwlad. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn gobeithio bod y wasg a'r cyfryngau wedi cymryd sylw o'r cyhoeddiad hwn.

- Roedd Aelodau'n cytuno bod angen i'r cyhoedd fod yn rhan o'r broses o ailbrisio treth y cyngor. Roedd angen cymaint o wybodaeth â phosibl, mewn iaith hawdd ei deall, ar gyfer pob aelwyd yng Nghymru. Roedd yn system gymhleth ac roedd angen rhoi cymaint o help â phosibl i bobl. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'r deunydd yn amlieithiog ac a fyddai copïau ar gael ar gyfer pobl â nam ar eu llygaid.
- Roedd Aelodau'n teimlo ei bod hi'n bwysig bod y Pwyllgor yn cael y diweddaraf am hynt y Mesur Tai.
- Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y Pwyllgor wedi cael gwahoddiad i gynhadledd rhwydwaith Rhoi Cymunedau'n Gyntaf, ond ei bod wedi tynnu sylw'r Aelodau ati. Ychwanegodd y byddai wedi croesawu gwahoddiad i'r Pwyllgor i gydnabod eu diddordeb a'u gwaith yn y maes hwn.
- Croesawyd yr arian ar gyfer Cronfa Ddatblygu Swyddfa'r Post ond mynegwyd siom ynghylch penderfyniad yr Adran dros Fasnach a Diwydiant i beidio â chario ymlaen â'r gwaith o gyhoeddi *Your Guide to Post Offices.* Gofynnwyd i'r Gweinidog gysylltu eto â San Steffan ynghylch hyn. Bu Aelodau hefyd yn trafod y posibilrwydd na fyddai modd cael budd-daliadau mewn Swyddfa Bost wedi 2003. Tynnwyd sylw at y ffaith y bydd pobl yn dal yn gallu cael eu budd-daliadau yn Swyddfa'r Post ond nad oedd llawer o gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i'r ffaith hon. Gofynnwyd i'r Gweinidog wneud cyflwyniadau ar y mater hwn.
- Gofynnodd y Cadeirydd i'r Gweinidog a fyddai'n ystyried trafod y Mesur Gofal Cymunedol (Gohirio Rhyddhau) yn y Pwyllgor gan fod goblygiadau i awdurdodau lleol. Dywedodd ei bod yn gwerthfawrogi ei fod yn rhan o'i phortffolio hi a phortffolio'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

4. Wrth ymateb dywedodd y Gweinidog:

- Diolchodd i'r Aelodau am eu sylwadau ar ailbrisio treth y cyngor a chytunodd i ysgrifennu atynt gyda manylion y cynnig. Cadarnhaodd y byddai'r deunydd yn amlieithog ac ar gael ar gyfer pobl â nam ar eu llygaid. Cytunodd hefyd i ysgrifennu at bob AC, pan fo'n briodol, er mwyn iddynt gael y wybodaeth ddiweddaraf ar flaenau'u bysedd ar gyfer eu cymorthfeydd.
- Cytunodd y Gweinidog i gysylltu eto â San Steffan ynghylch canllawiau swyddfa'r post ac y dylid rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith y bydd budd-daliadau'n parhau i gael eu talu yn y swyddfeydd post.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i roi gwybod am hynt y corff newydd annibynnol ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned.
- Y Gweinidog i ddosbarthu manylion yr arian ychwanegol ar gyfer y Cynllun Cymorth Prynu Cartrefi Cefn Gwlad.

- Y Gweinidog i ddosbarthu ei chynigion ar gyfer rhoi cyhoeddusrwydd i'r broses ailbrisio treth y cyngor.
- Ar yr adeg iawn, y Gweinidog i anfon nodyn ar ailbrisio treth y cyngor at bob AC.
- Y Gweinidog i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau yn achos Cymdeithas Tai'r Drenewydd.
- Y Gweinidog i roi gwybod i'r Pwyllgor am amserlen arfaethedig taith y Mesur Llywodraeth Leol trwy'r Senedd.
- Y Gweinidog i roi gwybod yn rheolaidd i'r Pwyllgor am hynt y Mesur Tai drafft.
- Y Gweinidog i roi nodyn am natur cysylltiad pobl ifanc â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- Y Gweinidog i roi'r diweddaraf ar y cwynion yn erbyn Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- Y Gweinidog i roi gwybod i'r Pwyllgor am y taenellwyr sy'n cael eu gosod yn y ddwy ysgol.
- Y Gweinidog i ysgrifennu at San Steffan ynghylch lansio *Your Guide to Post Offices* a'r cyngor y dylid casglu budd-daliadau drwy gyfrifon banc.
- Y Gweinidog i siarad â'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch ystyried sylwadau'r Pwyllgor ar y Mesur Gofal Cymunedol (Gohirio Rhyddhau).
- Y Clerc i wahodd y gweithgor "Un Llais" i wneud cyflwyniad i'r Pwyllgor.
- Y Pwyllgor i ysgrifennu at Swyddfa'r Post a thynnu sylw at y ffaith bod Swyddfa'r Post yn talu budd-daliadau.

**<u>10.10am - 10.25am</u>**

**Eitem 3: Cod Ymddygiad ar y Fframwaith Moesegol Newydd**

**LGH-17-02(p.1)**

3.1 Cyflwynodd y Gweinidog y papur a gwahoddodd sylwadau ar y canllawiau drafft.

2. Gwnaeth Aelodau'r sylwadau canlynol:

- Roedd yr Aelodau'n croesawu'r canllaw drafft er ei fod yn hwyr. Roedd angen llawer mwy o eglurhâd cyn y gellid cytuno arno a'i gyhoeddi.
- Mynegwyd pryder am sefyllfa aelodau sydd yn Gynghorwyr Sir ac yn Gynghorwyr Cymuned o ran materion cynllunio ac ychwanegwyd ei bod hi'n bwysig eu bod yn rhoi'r ddelwedd gywir i'r cyhoedd.
- Gofynnodd Aelodau am ganllawiau ar gyfer yr aelodau hynny sydd hefyd yn

llywodraethwyr ysgol. Roeddent yn teimlo nad oedd problem ymgymryd â'r ddwy rôl hon, cyhyd â'u bod yn datgan buddiant.
- Roedd rhai Aelodau'n teimlo y dylid cynnwys darpariaeth yn y cod i orfodi aelodau sydd wedi ymddeol i roi tystiolaeth i'r pwyllgor safonau perthnasol, pe bai angen. Awgrymwyd y dylid cyfeirio achosion o'r natur hon i'r ombwdsmon lleol.
- Awgrymwyd y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru ystyried gosod amserlenni ar gyfer cynnal ymchwiliadau.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd y gweithgor Un Llais wedi'u gwahodd i fynegi sylwadau ar y fframwaith drafft.

2. Diolchodd y Gweinidog i'r Aelodau am eu sylwadau a dywedodd y byddai'n ystyried eu pwyntiau yn ogystal â'r ymatebion i'r ymgyghoriad. Cadarnhaodd nad oedd y gweithgor Un Llais wedi cael gwhoddiad ond yn byddai'n sicrhau eu bod yn cael cyfle. Dywedodd y byddai'n rhoi'r diweddaraf i Aelodau am y cod drwy ei hadroddiad ysgrifenedig.

3.4 Ymddiheurodd y Gweinidog, ond roedd yn rhaid iddi adael ar gyfer cyfarfod brys.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i roi adroddiad i'r Pwyllgor ynghylch a yw aelodau gweithredol yn cael bod yn llywodraethwyr ysgol ac yn aelodau o awdurdod ac ynghylch rôl aelodau cynghorau tref a chymuned ac awdurdodau lleol yn y broses ceisiadau cynllunio.
- Y Gweinidog i ystyried pwyntiau a wnaed gan Aelodau ar ganllawiau'r Fframwaith Moesegol drafft ac adrodd yn ôl yn y dyfodol mewn adroddiad gweinidogol.

<u>**10.25am - 10.50am**</u>

**Eitem 5: Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru - Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2001-02**

1. Croesawodd y Cadeirydd Susan Smith, Cadeirydd Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru (LGBC), John Davies, Is-Gadeirydd, Dennis Roberts, Aelod ac Edward Lewis, Ysgrifennydd y Pwyllgor. Fe'u gwahoddodd i wneud eu cyflwyniad.

2. Dywedodd Susan Smith fod pob Aelod wedi derbyn copi o Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2001/02 LGBC. Talodd deyrnged i waith Yr Athro Sunderland a Lloyd Fitzhugh. Tynnodd sylw at y materion canlynol:

- Mae'r adolygiad o ffiniau Llangollen wedi ennyn ymateb cryf yn lleol gan bobl o ddwy ochr y ddadl.
- Mae'r adolygiadau ar gyfer Clynderwen, Gorllewin Llandysilio a Llandudoch wedi'u cwblhau.
- Roedd y gyllideb wedi cael ei rheoli'n dda ond dywedodd fod y gwaith ysgrifenyddol a wnaed ar gyfer y Comisiwn Ffiniau wedi'i gynnwys yn y ffigurau a gyflwynwyd. Cafodd cyfran o'r costau eu had-dalu gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (yr adran sy'n noddi gwaith y Comisiwn Ffiniau) a gobeithir y bydd cyfrifon yn y dyfodol yn dangos hyn.

1. Diolchodd yr aelodau i Susan Smith am ei hadroddiad ac roeddent yn cydnabod bod yr adolygiad o ffiniau Llangollen wedi bod yn destun trafodaethau brwd. Cyfeiriwyd at y sesiwn agored a gynhaliwyd yno a gofynnwyd i'r Comisiwn pa wersi a gafodd eu dysgu o'r ymarfer hwnnw a pha mor bwysig oedd y rhan honno o'r adolygiad i'r penderfyniad terfynol? Gofynnodd Aelodau hefyd a oedd y ddau gorff, LGBC a'r Comisiwn Fffiniau, wedi drysu'r cyhoedd.

4. Mewn ymateb dywedodd Susan Smith bod y sesiwn agored wedi bod yn ddefnyddiol iawn ond pe baent yn cynnal rhai yn y dyfodol, byddent yn gofyn i sefydliadau corfforaethol fynychu'r cyfarfod yn hwyrach gan fod aelodau cyffredin o'r gymuned yn gorfod eistedd trwy drafodaethau technegol, hirfaith y gellid bod wedi'u hosgoi. Ychwanegodd eu bod wedi dibynnu ar gyhoeddusrwydd lleol ar gyfer y cyfarfod ond y byddent yn trefnu hynny eu hunain yn y dyfodol i sicrhau bod y neges yn cael ei lledaenu'n eang. Ychwanegodd bod yr ymarfer wedi atgyfnerthu'r hyn yr oedd pobl eisoes yn ei deimlo am y sefyllfa a bu'n ddiddorol clywed barn arweinwyr lleol fel prifathrawon yn hytrach na dim ond safbwyntiau corfforaethol. Dywedodd bod yn rhaid i'r Comisiwn fod yn fodlon yn y pen draw bod rheswm dilys dros newid. Ni chafwyd dadl i'w argyhoeddi o hynny.
5. Dywedodd bod elfen bontio i waith y 2 Gomisiwn gan y bydd y Comisiwn Ffiniau'n cael ei ddiddymu ar ôl 2005 ac y byddai ei gyfrifoldebau'n cael eu trosglwyddo i Gomisiwn Etholiadol y DU. Y Comisiwn hwnnw fydd yn mynd i'r afael ag adolygu ffiniau etholaethau seneddol ac efallai y byddai'n haws gwahaniaethu rhwng eu cyfrifoldebau o hynny ymlaen.

5.6 Diolchodd y Cadeirydd i'r LGBC am ei gyflwyniad a dywedodd bod y Pwyllgor yn gwerthfawrogi'r gwaith pwysig yr oedd yn ei wneud.

**<u>10.50am - 11.05am</u>**

Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl am 15 munud.

**<u>11.05am - 11.15am</u>**

**Eitem 4: Y Diweddaraf ar Gynllun Gwarchod Bondiau Caerdydd**

**LGH-17-02(p.2)**

4.1 Yn absenoldeb anorfod y Gweinidog, cyflwynodd Peter Black, y Dirprwy Weinidog y papur a oedd yn rhoi'r diweddaraf am y cynllun ers i'r Pwyllgor ei ystyried ym mis Mai 2002. Tynnodd sylw Aelodau at ymgynghoriad gan Lywodraeth y DU a allai olygu y bydd rheidrwydd statudol ar landlordiaid preifat yng Nghymru a Lloegr i warchod ernesau tenantiaid mewn cynlluniau cymeradwy. Roedd y Gweinidog yn cefnogi hyn. Dywedodd, os oedd y Pwyllgor yn hapus, y byddai'n eu hysbysu o ddatblygiadau pellach Cynllun Gwarchod Bondiau Caerdydd ym mis Tachwedd 2003.

2. Gwnaeth yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- Dywedodd Aelodau bod croeso cynnes i'r cynllun a'u bod yn gobeithio ei weld yn cael ei ymestyn i ardaloedd eraill yng Nghymru lle ceir cyfartaledd uchel o lety rhent a chanran uchel o fyfyrwyr.
- Roeddent yn teimlo ei fod yn cynnig sicrwydd i fyfyrwyr a oedd yn aml yn cael eu hecsbloetio gan landlordiaid diegwyddor.
- Roedd Aelodau'n teimlo y dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r cynllun.
- Cwestiynwyd y defnydd o'r gair "demand" ym mhapur newydd myfyrwyr Prifysgol Caerdydd, *Gair Rhydd,* gan nad oedd gan fyfyrwyr lawer o ddylanwad na phwer i allu gwneud hynny wrth negodi â landlordiaid.

4.3 Atebodd Peter Black drwy ddweud y byddai ef hefyd yn hoffi gweld mwy o gyhoeddusrwydd i'r cynllun a'i fod yn cefnogi'r dull statudol sy'n cael ei ystyried ar gyfer Cymru a Lloegr. Ychwanegodd mai mater i'r papur newydd ei hun oedd defnyddio'r gair "demand" ac nad oedd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw ddylanwad dros hyn.

**<u>11.15am - 11.50pm</u>**

**Eitem 6: Adolygiad o'r Polisi ar Adfywio Cymunedol: Meithrin gallu**

1. Croesawodd y Cadeirydd Rhian McCarthy o Gonsortiwm Hyfforddi Datblygu Cymunedol a'r Athro Dave Adamson i'r Pwyllgor. Dywedodd ei bod wedi derbyn ymddiheuriadau oddi wrth Anne Bowen o'r Rhwydwaith Coleg Agored ond roedd

manylion y cyflwyniad yr oedd wedi bwriadu'i roi wedi'i ddosbarthu gan y Dirprwy Glerc ar 26 Tachwedd. Roedd Aelodau hefyd wedi derbyn brîff ar y Consortiwm Hyfforddi Datblygu Cymunedol a'r Rhwydwaith Coleg Agored.

2. Gwnaeth Rhian McCarthy ei chyflwyniad - ceir copi yn Atodiad 1. Tynnodd sylw at y canlynol:

- Er mwyn i'r ddarpariaeth lwyddo, rhaid ystyried y lleoliad yn ofalus yn ogystal â'r angen am drafnidiaeth gyhoeddus.
- Roedd yn rhaid annog dysgwyr i glustnodi eu hanghenion personol o ran hyfforddiant yn hytrach na dilyn cwrs safonol.
- Roedd angen i grwpiau gefnogi'i gilydd er mwyn iddynt ddysgu ar y cyd.
- Roedd y prinder dybryd o hyfforddwyr â chymwysterau a sgiliau, y diffyg deunyddiau dwyieithog a'r angen am nifer penodol o fyfyrwyr cyn gallu cynnal cwrs yn amharu ar lwyddiant y ddarpariaeth. Roedd y pwynt olaf hwn yn anfantais fawr yn arbennig mewn lleoliadau gwledig.
- Cafwyd problemau o ran ariannu. Roedd arian ar gael ar gyfer y tymor byr, fel arfer, ond roedd angen cyllid craidd er mwyn sefydlu'r cyrsiau hyfforddi.
- Roedd angen adnoddau gofal plant ar lawer o fyfyrwyr ond nid oedd rhaglen Rhoi Cymunedau'n Gyntaf yn ariannu hynny.
- Nodwyd problemau hefyd wrth fapio'r holl gyrsiau oedd ar gael ac roedd hyn hefyd yn ei gwneud hi'n anodd achredu cyrsiau.
- Teimlwyd bod diffyg cydlynu a dim strwythur o gwbl y maes hyfforddiant adfywio cymdeithasol. Nid oedd unrhyw agwedd strategol at hyfforddi.
- Disgwylir y byddai'r adroddiad terfynol yn barod yng ngwanwyn 2003 a'r bwriad oedd ei lansio mewn Cynhadledd.

1. Roedd yr Athro Adamson am ddiolch i Rhian McCarthy a Justine Scorrer o'r Consortiwm Hyfforddi Datblygu Cymunedol am eu gwaith gwerthfawr ym maes meithrin gallu.
2. Ychwanegodd nad oedd yn gallu gwneud sylw uniongyrchol ar bapur Anne Bowen ond dywedodd bod Rhwydwaith Coleg Agored yn achredu amrediad eang o ddarpariaethau addysgol ar gyfer oedolion a chymunedau yn y DU. Mae'r fframwaith achredu yn caniatáu i bobl ddatblygu cymwysterau hyblyg sy'n gallu ymateb i batrymau dysgu a hyfforddi lleol.
3. Gwnaeth yr aelodau y pwyntiau canlynol:

- Teimlwyd bod angen asesu ansawdd y gwaith a bod angen creu safonau cenedlaethol.
- Nodwyd y prinder staff hyfforddedig.
- Teimlwyd bod goblygiadau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes.
- Roeddynt yn cytuno bod angen ailystyried yr angen am nifer penodol o fyfyrwyr i gynnal cwrs yn ogystal â'r angen am feithrinfeydd.
- Trafodwyd y posibilrwydd o ailgyflwyno'r Cyfrifon Dysgu Unigol gan fod aelodau'n teimlo y byddai'r cynllun hwnnw'n rhoi cyfle i bobl fynychu cyrsiau wedi'u teilwra i'w hanghenion

personol eu hunain. Nodwyd bod y cynllun Cyfrifon Dysgu Unigol wedi'i atal ym mis Rhagfyr 2002 a bod y cynllun sydd i'w olynu bron â bod yn barod.
- Awgrymwyd bod y Pwyllgor yn gwahodd y Gweinidog dros Addysg a Datblygu Cynaliadwy i ymateb i'r materion yn ymwneud â hyfforddi sydd wedi cael eu codi.

6.6 Diolchodd y Cadeirydd i Rhian McCarthy am ei chyflwyniad diddorol ac i Dave Adamson am ei sylwadau.

**11.50pm - 12.30pm**

**Eitem 7: Cyflwyniad ar Sefyllfa Economaidd-Gymdeithasol Pobl Ddu a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru a'u Sefyllfa o ran Tai**

1. Croesawodd y Cadeirydd Dr Kingsley Purdam a Yaojun Li o Brifysgol Manceinion. Maent wedi cynnal prosiect ymchwil ar sefyllfa economaidd-gymdeithasol pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru a'u sefyllfa o ran tai.
2. Gwnaeth Dr Purdam ei gyflwyniad. Roedd Aelodau wedi cael copi ohono yn ogystal â chopi o grynodeb gweithredol yr ymchwil. Disgwylir i adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi maes o law. Ychwanegodd Dr Purdam efallai yr hoffai'r Pwyllgor nodi, yn dilyn yr eitem flaenorol, bod pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yn llai tebygol o gymryd rhan mewn rhaglenni adfywio cymunedol.
3. Diolchodd aelodau i Dr Purdam am ei gyflwyniad diddorol a chodwyd y pwyntiau canlynol:

- Nodwyd bod canran uchel o'r grwp du-affricanaidd yn byw mewn cartrefi heb gawodydd. A ystyriwyd cyfleusterau eraill (ee bath) wrth gasglu'r ystadegau?
- Roedd grwpiau ethnig yn fwyaf tebygol o fyw mewn tai cymdeithasol - beth oedd goblygiadau hyn?
- A ellid cynllunio tai cymdeithasol newydd a fydd yn cynnwys cawodydd?
- Nodwyd bod ar ganran uchel o dai perchnogaeth preifat angen eu hadnewyddu. A oes unhryw ystadegau i ddweud a oes ceisiadau'n cael eu gwneud am grantiau adnewyddu?
- O ran tai sydd â gormod o bobl ynddynt, a allai hyn fod yn rhan o ddiwylliant teulu estynedig?

1. Wrth ymateb, dywedodd Dr Purdam a Yaojun Li:

- Roedd cawodydd mewn tai cymdeithasol fel rheol, ond nid mewn tai preifat. Byddai'n ystyried y cwestiwn am faddonau ac yn adrodd yn ôl gyda'r ateb.
- Nid oedd hi'n bosibl monitro a oedd pobl wedi gwneud cais am grant adnewyddu gan nad yw'r wybodaeth ar gael gan y ffynonellau a ddefnyddiwyd yn yr ymchwil hon ond ychwanegodd y byddai'n bosibl gwneud peth gwaith monitro ar hyn.
- Mae diwylliant grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yn golygu bod llawer o bobl yn

byw mewn ty ond roedd yr ymchwil yn dangos bod 50% o bobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru o dan 16 oed. Mae hyn yn amlwg yn mynd i gael effaith ar dai yn y dyfodol.

7.3 Dwedodd Peter Black bod llawer o'r tai ar gyfer pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig yn ardal Abertawe wedi'u hadnewyddu i gyrraedd y safon gydnabyddedig gan eu bod mewn ardal cynllun gweithredu ar dai oherwydd eu lleoliad. Ychwanegodd y byddai'n rhaid i bob ty cymdeithasol newydd gynnwys cawodydd o Ionawr 2003. Dywedodd bod y cwestiwn o fonitro ethnig ffurfiol yn rhan o'r amodau ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ond nid oedd gofyn i awdurdodau lleol wneud hyn. Efallai bod hyn yn rhywbeth y gallai Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei ystyried.

7.4 Rhoddodd John Bader y diweddaraf i'r Pwyllgor ar y Cynllun Gweithredu ar gyfer Pobl Ddu a Lleiafrioed Ethnig gan ychwanegu fod yr ymchwil werthfawr hon yn rhan hanfodol o'r broses polisi. Roedd yn hanfodol bod y polisïau cywir yn cael eu datblygu i weddu i anghenion tai pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig. Ychwanegodd bod cynhadledd yn cael ei chynnal yn Ionawr 2003 sydd wedi'i hanelu'n arbennig at ymarferwyr. Bydd y materion a drafodwyd heddiw yn cael eu cynnwys ar yr agenda. Dywedodd bod y Gweinidog yn cynnal sesiwn yn arbennig ar gyfer awdurdodau lleol ac y byddai'r digwyddiadau hyn yn cyfrannu i'r broses o gasglu gwybodaeth fanwl.

7.5 Diolchodd y Cadeirydd i Dr Purdam a Yaojun Li am eu cyflwyniad.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Swyddogion yn y Gyfarwyddiaeth Dai i edrych ar y canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol o ran monitro digartrefedd yn y sector pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig.

**12.30pm**

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd Hydref.**

**LGH-16-02(min)**

1. Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Tachwedd.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor

Tachwedd 2002